



Dyddiad cyhoeddi: 18 Awst 2020

Teithio hanfodol

Diolch am eich cais Deddf Rhyddid Gwybodaeth ar 12 Gorffennaf 2020. Mae'ch cais wedi'i ystyried yn unol â gofynion y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a'n polisi mynediad at wybodaeth.

Nodir yr atebion i'ch ymholiadau isod:

1. Sut ydych chi'n diffinio teithio "hanfodol"?

Mae Llywodraeth Cymru yn diffinio teithio hanfodol fel a ganlyn: <https://llyw.cymru/lefel-rhybudd-0-canllawiau-ir-cyhoedd>

2. Ydy hyn yn cael ei orfodi o fewn Cymru, Lloegr, neu'r naill a'r llall?

Ni orfodwyd hyn. Canllawiau i'r cyhoedd oedd hyn a oedd yn cael eu darparu drwy addysg ac anogaeth gan staff yn ogystal â gwybodaeth wedi'i chyhoeddi.

3. Os yw'n cael ei orfodi, sut?

Nid oedd hyn yn cael ei orfodi.

4. Os oes unrhyw un wedi neu yn cael eu cyfyngu, neu y bwriedir eu cyfyngu o ran y teithiau y gallant eu gwneud, darparwch y manylion llawn.

Nid oedd yn bolisi gennym ni i orfodi'r mathau o deithiau roedd pobl yn eu gwneud ar wasanaethau TrC.

5. Ydych chi'n gwrthod hawliau pobl nad oes ganddynt geir i wneud teithiau y gallai perchennog car eu gwneud yn gyfreithlon?

Na. Rydym yn gofyn i bobl ystyried a yw'r teithiau maen nhw'n eu gwneud yn hanfodol er mwyn sicrhau bod capasiti i'r rhai sydd angen gwneud teithiau hanfodol neu oedd heb opsiwn arall.

6. Darparwch fanylion yr holl ohebiaeth berthnasol gydag unrhyw gyrff perthnasol (Llywodraeth Cymru, Ffocws ar Drafnidiaeth, yr Adran Drafnidiaeth ac ati) ynghylch y polisi hwn

Ni dderbyniwyd unrhyw ohebiaeth uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru, yr Adran Drafnidiaeth na'r RDG ynghylch 'teithio hanfodol' ond rydym wedi dibynnu ar gyfarwyddyd a gyhoeddwyd ar wefannau a bwletinâu, fel y manylir yn (1). Bob tro y mae gwybodaeth wedi'i chyhoeddi gan unrhyw awdurdod, rydym wedi diweddarau ein dogfennaeth fewnol, canllawiau a pholisïau ein hunain. Cyhoeddir y canllawiau hyn i'r Partner Gweithredu a Chyflawni, 'Gwasanaethau Rheilffordd TrC', a weithredir gan Keolis Amey.

Yn gywir

Trafnidiaeth Cymru